


Llyfr:	Dilys Deg (10)
Adnoddau:	<ul style="list-style-type: none"> • 10 blwch rhodd gwag neu fagiau bach. • Eitemau tegan (e.e., cacennau smalio, balŵns, canhwyllau, hetiau parti, ac ati). • Cardiau rhif (1 i 10). • ‘Blwch pen-blwydd’ neu gynhwysydd mawr ar gyfer casglu'r anrhegion. • Papur a chreonau ar gyfer tasg greadigol ddilynol.
Camau:	<p>Nod: Datblygu sgiliau rhifedd trwy archwilio'r rhif 10, wrth annog creadigrwydd a gwaith tîm o fewn thema parti pen-blwydd.</p> <p>Cam 1 - Dechreuwch trwy drafod partïon pen-blwydd a gofyn i'r dysgwyr am anrhegion y gallen nhw eu rhoi neu eu derbyn.</p> <p>Cam 2 - Cyflwynwch y rhif 10 trwy ei ddangos ar gerdyn mawr a gofyn cwestiynau fel: ‘Faint o fysedd sydd gennyn ni ar y ddwy law?’ neu ‘Allwn ni feddwl am 10 peth rydyn ni'n eu gweld mewn parti pen-blwydd?’</p> <p>Cam 3 - Gweithgaredd Didoli Anrhegion. Gwasgarwch y 10 bocs neu fag anrhegion gwag o amgylch yr ystafell. Mae pob blwch wedi'i ‘labelu’ gyda rhif o 1 i 10. Rhowch yr eitemau tegan yng nghanol yr ystafell fel y ‘pentwr anrhegion’. Gofynnwch i'r plant ddidoli'r teganau yn ôl y rhifau: er enghraifft, mae 1 eitem yn mynd i'r blwch sydd wedi'i labelu "1," mae 2 eitem yn mynd yn y blwch â'r label "2," ac yn y blaen, hyd at 10. Anogwch y dysgwyr i gyfrif yn uchel gyda'i gilydd wrth i eitemau gael eu rhoi ym mhob blwch.</p> <p>Cam 4 - Her y Bocs Pen-blwydd. Unwaith y bydd yr holl flychau wedi'u llenwi, casglwch y grŵp o gwmpas y ‘blwch pen-blwydd’. Sicrhewch fod y plant yn cyfrif wrth iddynt ‘roi’ pob un o'r 10 anrheg yn y blwch pen-blwydd, un ar y tro, gan bwysleisio'r dilyniant o 1 i 10.</p>
Cwestiynu:	<ul style="list-style-type: none"> • A all unrhyw un feddwl am 10 peth y gallen ni eu gweld mewn parti pen-blwydd? • Sut mae'r blwch hwn gyda 10 eitem yn edrych yn wahanol i flwch gyda llai o eitemau? • Faint o anrhegion rydyn ni wedi'u hychwanegu at y blwch pen-blwydd hyd yn hyn? Faint yn fwy nes i ni gyrraedd 10? • Beth ydych chi'n ei feddwl fyddai'n digwydd pe baen ni'n hepgor un blwch? Fydden ni'n dal yn cael 10 anrheg?



Cymeriadau Difyr



Beth nesaf?

Tasg Greadigol:

Darparwch bapur a chreonau i'r plant dynnu llun eu parti pen-blwydd eu hunain gyda 10 anrheg. Gofynnwch iddyn nhw gyfri'r anrhegion yn eu lluniau a rhannu'r hyn wnaethon nhw ei dynnu gyda'r grŵp.

